



ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR

23 TACHWEDD 2022

Adroddiad gan: Arwyn Thomas, Rheolwr Gyfarwyddwr GwE

Pwnc: Llythyr i'r Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1. Darparu cofnod ffurfiol i'r Cyd-bwyllgor, yn dilyn trafodaethau a phenderfyniad yn y cyfarfod blaenorol ar 05/10/2022, yng nghyswllt y llythyr a anfonwyd at y Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ar 11/10/2022.

2.0 Cefndir

2.1. Roedd y llythyr (Atodiad 1) ar ran Cyd-Bwyllgor GwE a anfonwyd at y Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, yn mynegi pryder a chonsyrn am y pwysau cynyddol sy'n disgyn ar arweinyddion a staff ein hysgolion, ac yn enwedig felly wrth i Estyn ail-gydio yn eu cylch arolygu.

3.0 Ystyriaethau

3.1. Roedd y llythyr yn croesawu yn fawr yr hyn gaiff ei amlygu yn y Canllaw Gwella Ysgolion newydd ac yn arbennig felly tŷn a naws y ddogfen. Roedd hefyd yn croesawu yn fawr y cyfeiriad y mae Prif Arolygydd ei Fawrhidi yn ei osod ar gyfer y corff rheoleiddio.

3.2. Byrdwn y neges yn yr ohebiaeth oedd tynnu sylw at y risg y mae'r cylch arolygu newydd yn ei gyflwyno i weithredu a gwireddu llawer o'r camau cadarnhaol y mae'r canllaw yn ei ofyn amdano.

3.3. Mae'r Cydbwyllgor yn llawn sylweddoli nad oes datrysiadau rhwydd i lawer o'r heriau a amlygwyd ond mae'r rhanbarth yn awyddus i ymgysylltu mewn modd

cadarnhaol a chynhyrchiol hefo Llywodraeth Cymru ac Estyn i adnabod ac i ddiffinio y ffordd mwyaf cadarnhaol o symud ymlaen.

3.4 Hyd yma, nid yw'r Cydbwyllgor wedi derbyn ymateb i'r llythyr.

4.0 Argymhellion

4.1 Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor nodi'n ffurfiol gynnwys y llythyr ac ystyried a oes angen unrhyw ohebiaeth bellach.

5.0 Goblygiadau Ariannol

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn.

6.0 Effaith ar Gydraddoldeb

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

7.0 Goblygiadau Personél

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

8.0 Ymgynghori sydd wedi digwydd

8.1 Ymgynghori â Bwrdd Rheoli GwE, y Cyd-bwyllgor a Phenaethiaid y rhanbarth.

9.0 Atodiadau

9.1 Atodiad 1 - Llythyr i'r Gweinidog y Gymraeg ac Addysg dyddiedig 11.10.22

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Swyddog Monitro:

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.

Swyddog Cyllid Statudol:

Dim i'w ychwanegu i'r adroddiad o safbwynt priodoldeb ariannol.